Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion
## Llanfair Caereinion
## Y Trallwng
## Powys
## SY21 0SF

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion

Lleolir Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion yn nhref wledig Llanfair Caereinion yn Nyffryn Banwy ym Mhowys. Mae'n darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg i'w disgyblion mewn dwy ffrwd. Mae 174 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Fe'u rhennir yn 7 dosbarth oedran cymysg. Mae 3 dosbarth cyfrwng Cymraeg a 4 dosbarth cyfrwng Saesneg.

Tua 9% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Mae tua chwarter yr holl ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 20% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n agos i'r ganran genedlaethol, sef 21%. Nid oes disgybl sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2011. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae ethos gofalgar a chynhwysol i'w weld ym mhob agwedd ar waith yr ysgol. Mae staff yn sefydlu perthynas waith dda iawn gyda'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu gefnogol a gweithgar. Mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn, yn awyddus i ddysgu ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol ac yn sicrhau bod disgyblion y ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg yn cael yr un cyfleoedd a phrofiadau. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn, yn cyflawni'n dda ac yn defnyddio eu medrau i safon uchel erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae'r ysgol yn elwa o arweinyddiaeth gadarn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Mae'r holl staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio'n agos fel tîm i sicrhau bod disgyblion yn datblygu i'w llawn botensial ac yn ymfalchïo yn eu hysgol a'u cymuned.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac i weithio'n fwy annibynnol

A2 Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion y ffrwd Saesneg ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau'r ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n astud mewn gwersi ac yn ystyried safbwynt eu cyfoedion yn ofalus. Maent yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol yn Saesneg yn y ffrwd Saesneg ac yn y ddwy iaith yn y ffrwd Gymraeg. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn ddeallus ac yn cyfrannu'n bwrpasol i drafodaethau grŵp, gan fynegi barn yn glir ac aeddfed, er enghraifft wrth drafod llyfr. Mae rhan fwyaf y disgyblion sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith a'r llall. Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar Cymraeg o ystyried eu mannau cychwyn. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn cynnal sgwrs am eu hoff ddiddordebau, eu teuluoedd a'u ffrindiau yn hyderus, gan ddefnyddio geirfa a chystrawen briodol. Fodd bynnag, prin yw eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau i adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn trafod prif ddigwyddiadau stori a mynegi barn am yr hyn maent wedi ei ddarllen yn hyderus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn glir ac yn llawn mynegiant. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am sut mae cartrefi wedi datblygu dros y canrifoedd. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn darllen o destun Cymraeg cyfarwydd yn ddeallus.

Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae gwaith ysgrifenedig rhan fwyaf y disgyblion yn drefnus a chlir. Maent yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau yn dda gan ddefnyddio ffurf a geirfa briodol, er engraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i roi bath i fabi, neu ysgrifennu llythyr at Siôn Corn. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu gwaith yn ddiddorol ar draws ystod eang o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth baratoi erthyglau i bapur Plu'r Gweunydd neu wrth greu taflen wybodaeth am amgueddfa werin Sain Ffagan. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn ysgrifennu at wahanol bwrpasau yn y Gymraeg yn dda, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur gwyliau a sgript rhwng dau ffrind.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Maent yn defnyddio'u medrau'n dda ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth fesur cynhwysedd gwahanol boteli neu wrth gasglu gwybodaeth i lunio graff bar syml am hoff frwythau'r dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth

gofnodi ar ffurf graff llinell ddeilliannau o ymchwil gwyddonol ar sut mae nifer y llinynnau yn effeithio ar gryfder sain. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang o ddulliau i gyfrifo yn y pen ac ar bapur, er enghraifft wrth lunio bwydlen i drigolion tloty lleol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, er enghraifft, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n llwyddiannus i gyflwyno gwybodaeth am anifeiliad yn Affrica. Maent hefyd yn hyderus wrth ddefnyddio cronfa ddata syml i gofnodi hoff frwythau aelodau'r dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y sylfaen gadarn hon. Maent yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus, er enghraifft i chwilio am wybodaeth i gefnogi eu gwaith ar wahanol grefyddau. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cronfa ddata yn ddeallus, er enghraifft wrth archwilio gwybodaeth o gyfrifiad 1881 am drigolion y tloty lleol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol. Mae eu hymddygiad mewn gwersi, gwasanaethau, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amser hamdden, yn dda iawn. Maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr ac yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol. Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd rhan fwyaf y disgyblion yn dda, gyda bron pob disgybl yn ofalgar o'i gilydd yn ystod amseroedd egwyl a chinio.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau positif at eu gwaith. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig, sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefelau da o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llawer o'r disgyblion. O oed cynnar, mae gan ran fwyaf ohonynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Ar frig yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth aeddfed o'u cyrhaeddiad a'r cam nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn gweithio'n annibynnol, er enghraifft wrth ddewis y strategaeth fwyaf addas i ddatrys problemau nac yn gwneud penderfyniadau am sut a beth maent yn ei ddysgu'n ddigon rheolaidd.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn barod iawn i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau fel dewiniaid digidol, criw Cymraeg ac aelodau o'r cyngor ysgol neu'r cyngor eco. Mae'r grwpiau hyn yn cael dylanwad pwysig ar fywyd a gwaith yr ysgol. Enghraifft dda yw cyfraniad y dewiniaid digidol wrth helpu disgyblion eraill sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r we. Mae cyfraniad brwdfrydig y Criw Cymraeg wrth lansio rhaglen radio yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion eraill fwynhau cerddoriaeth Gymraeg gyfoes.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned, er enghraifft wrth gasglu mes mewn cydweithrediad ag asiantaeth amgylcheddol i sicrhau bod coed derw yn cael eu plannu trwy'r wlad. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i gefnogi gweithgareddau fel gwasanaethau mewn capeli a'r eglwys a chyngherddau a'r carnifal lleol. Maent hefyd yn cystadlu'n frwd mewn eisteddfodau. Maent yn cyfrannu'n gyson tuag at elusennau amrywiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu

dealltwriaeth o anghenion pobl eraill, yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei chael ar y corff. Mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hapus i drafod problemau gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae'r rhan fwyaf yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Mae bron pob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd. O ganlyniad, mae'r ganran presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae staff yn sefydlu perthynas waith dda iawn gyda'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu cefnogol a gweithgar. Ar draws yr ysgol, mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu effeithiol. Maent yn cysylltu eu gwersi'n effeithiol â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus. Mae cydweithio pwrpasol rhwng athrawon a chymorthyddion yn darparu cefnogaeth briodol er mwyn i ddisgyblion gwblhau ac elwa o'u tasgau'n llwyddiannus. Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel, maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn sicrhau rhediad da i'r sesiynau. Yn yr ychydig o enghreifftiau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae tueddiad i athrawon or-gyfarwyddo, sydd yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i weithio'n annibynnol.

Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar ac ysgrifenedig effeithiol i ddisgyblion ac yn eu hannog i ddyfalbarhau a myfyrio ymhellach ar sut i wella'u gwaith. Mae staff yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod y wers, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a meini prawf llwyddiant. O ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pa mor dda maent yn ei wneud ac yn gwybod sut i wella eu gwaith.

Mae'r profiadau dysgu yn seiliedig ar themâu diddorol a dychmygus sy'n ennyn awydd y disgyblion i ddysgu. Mae'r athrawon yn cyd-gynllunio'n drwyadl i sicrhau bod disgylbion y ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg yn cael yr un cyfleoedd a phrofiadau. Maent yn sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu ar gyfer anghenion disgyblion o alluoedd gwahanol yn effeithiol. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi gwreiddio'n llawn ac mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd ysgogol ac ymarferol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth drafod a dysgu am sut i ofalu am fabi. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn cynllunio'n fanwl i sicrhau dilyniant a pharhad mewn medrau pwnc a medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon wedi dechrau cynllunio i weithredu'r fframwaith cymhwysedd digidol yn fedrus. Er hyn, nid yw'r athrawon yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ac i wneud dewisiadau ynglŷn â beth a sut y maent yn dymuno ei ddysgu.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau cyfoethog a rheolaidd er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'u hardal a diwylliant Cymru, er enghraifft wrth ddysgu am ddylanwad tywysogion Powys ar hanes Cymru. Mae'r ysgol yn rhoi bri ar ddysgu am draddodiadau fel canu Plygain a dawnsio gwerin ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle i wrando ar gerddoriaeth gyfoes Cymraeg. Mae hyn yn cyfrannu at ymdeimlad o falchder ymhlith disgyblion tuag at eu hardal a'i thraddodiadau ac yn hyrwyddo eu hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth yn llwyddiannus. Mae'r athrawon yn fodelau iaith medrus ac yn cynorthwyo'r disgyblion i gywiro patrymau iaith mewn modd sensitif. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais amlwg ar hyrwyddo defnydd rheolaidd o'r Gymraeg. Enghraifft dda o hyn yw lansiad diweddar yr orsaf radio sy'n sicrhau bod disgyblion yn clywed mwy o'r Gymraeg ar adegau anffurfiol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn llwyr effeithiol wrth sicrhau bod disgyblion y ffrwd Saesneg yn defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae'r staff yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus gydag ystod eang o ymweliadau sy'n ymwneud â gwaith yr ysgol a thrwy wahodd ymwelwyr i mewn i'r ysgol. Mae'r clybiau allgyrsiol yn cyfrannu'n dda at brofiadau dysgu'r disyblion gyda chyfleoedd amrywiol iddynt berfformio a chystadlu mewn amrywiaeth dda o weithgareddau lleol a chenedlaethol.

Mae cyfleoedd da i'r disgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am rannau eraill o'r byd a diwylliannau gwahanol. Enghraifft dda o hyn yw i'r disgyblion drefnu twrnamaint pêl-droed Cwpan Affrica er mwyn codi arian i blant yn Lesotho. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn dangos empathi am fywydau pobl eraill.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n rhoi pwyslais amlwg ar les disgyblion. O ganlyniad, teimla'r disgyblion yn hapus a diogel yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu'n fedrus ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae staff yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr iddynt fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli sy'n aml yn seiliedig ar straeon o'r Beibl. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn fel goddefgarwch, tegwch a pharch tuag at eraill. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn ymdrin â'i gilydd. Mae darpariaeth ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u hetifeddiaeth leol yn effeithiol. Mae'r profiadau maent yn eu derbyn o fewn y dosbarth a thu hwnt yn cyfoethogi eu dealltwriaeth o hunaniaeth a pherthyn i Gymru. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celfyddydol a creadigol disgyblion yn effeithiol. Trwy wersi cerddoriaeth, cyfleoedd i berfformio a chymryd rhan mewn cyngherddau gydag artistiaid lleol a chystadlu mewn eisteddfodau, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymwneud â'r celfyddydau creadigol. Mae hyn yn annog hunanhyder a chydweithio'r disgyblion yn dda.

Mae'r pennaeth a'r athrawon yn defnyddio gweithdrefnau defnyddiol ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion yn effeithiol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn galluogi athrawon i adnabod anghenion unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn gynnar iawn. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o'r broses hon yn effeithiol er mwyn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn llythrennedd a rhifedd ac i ddarparu ar eu cyfer. Mae gan yr ysgol strategaethau pwrpasol i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Mae'r staff yn gweithio'n dda o dan arweiniad

y cyd-gysylltydd i weithredu'r ystod eang o raglenni ymyrraeth sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd da, er enghraifft yn eu medrau darllen, wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol priodol ar gyfer unigolion penodol ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cyfrannu'n addas at y broses o'u llunio a'u hadolygu. O ganlyniad, mae'r ysgol yn sicrhau bod bron bob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae'r ysgol wedi sefydlu perthynas gynhyrchiol gyda rhieni. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi datblygu safle cyfryngau cymdeithasol er mwyn cynnig gwybodaeth gyson i rieni am yr hyn y mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r datblygiad ac, o ganlyniad, maent yn fwy ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud adre i gefnogi'r dysgu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Trwy amrywiaeth o weithgareddau gwerthfawr i hybu iechyd a lles, mae'r ysgol yn darparu'n dda i sicrhau bod disgyblion yn gwybod ei bod yn bwysig gwneud penderfyniadau cywir o ran ffordd iach o fyw. Mae'r ysgol yn trefnu ymwelwyr ac ymweliadau addysgol cyfoethog sy'n cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd meithrin agweddau cymdeithasol cadarn. Enghraifft o hyn yw ymweliadau aelod o'r heddlu i drafod peryglon camddefnyddio cyffuriau a sylweddau ac ymweliad â'r ganolfan ailgylchu leol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i drafod, cydweithio a pharchu safbwyntiau ei gilydd. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r tîm rheoli yn darparu arweiniad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a gweledigaeth gadarn sy'nseiliedig ar sicrhau amrediad o brofiadau dysgu cyfoethog ar gyfer y disgyblion mewn awyrgylch gartrefol a chefnogol. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion. Mae'r staff ymroddgar yn cydweithio'n fedrus ac yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac effeithiol. Mae'r cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n dda ar olrhain cynnydd disgyblion, gwerthuso'r ddarpariaeth a gosod targedau gwella. Mae hyn yn rhoi ffocws glir i waith y staff ac yn cyfrannu'n dda at sicrhau gwelliant parhaus, er enghraifft ym medrau darllen a rhesymu mathemategol disgyblion. Mae arweinwyr yn ymateb yn gyflym i fynd i'r afael ag agweddau sydd angen eu gwella. Mae hyn yn arwain at wella ansawdd yr addysgu drwy sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda. Trwy weithgareddau pwrpasol, fel teithiau cerdded a chraffu gwaith, mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o safonau cyrhaeddiad y disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i gyfrannu at osod cyfeiriad strategol clir i'r ysgol ac i gydweithio â'r staff i osod blaenoriaethau gwella yn bwrpasol, er enghraifft wrth hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r llywodraethwyr yn monitro cynnydd yn drwyadl ac yn cyflawni eu rôl fel ffrindiau beirniadol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn herio'r ysgol i sicrhau cysondeb yng nghyflawniadau disgyblion yn y ddwy ffrwd.

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol ac wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth eang. Mae hyn yn sicrhau bod gan arweinwyr wybodaeth drylwyr am

safonau dysgu ac addysgu ac maent yn gwerthuso perfformiad yr ysgol yn fanwl. Trwy graffu ar waith disgyblion, arsylwadau gwersi, teithiau dysgu a thrafod gyda disgyblion, maent yn dod i farn deg a chywir ynglŷn â safonau cyfredol ac yn adnabod agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r ysgol yn casglu barn rhieni a disgyblion yn rheolaidd i sicrhau bod cyfle ganddynt i wneud sylwadau a chynnig awgrymiadau ar sut i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae arweinwyr yn ymateb yn dda i'r sylwadau hyn. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi trefnu gweithgareddau ychwanegol amser cinio ar gais y disgyblion. Mae cysylltiad clir rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol sy'n sicrhau ei fod yn arf defnyddiol ac effeithiol. Mae'r arweinwyr yn monitro cynnydd yn ofalus er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae'r ysgol wedi cyfoethogi'r ddarpariaeth TGCh ar draws yr ysgol, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn cyfrannu'n effeithiol at fodloni gofynion yr ysgol a datblygiad proffesiynol y staff. Mae'r arweinwyr yn cynnig cyfleoedd da i staff wella eu harfer a chodi safonau'r disgyblion. Enghreifftiau da o lwyddiant y trefniadau yw ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer gwella medrau ysgrifennu'r disgyblion. Mae'r ysgol yn flaenllaw wrth fynd i'r afael â datblygiadau diweddar, er enghraifft wrth ddiwygio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Adlewyrchir hyn yn ansawdd y rhaglenni ymyrraeth ar gyfer disgyblion penodol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag ysgolion eraill, o fewn a thu hwnt i'w hardal leol. Mae'r cydweithio yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau'r athrawon a chodi safonau disgyblion.

Mae'r arweinwyr yn rheoli adnoddau yn effeithlon. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o gryfderau'r staff er mwyn lledaenu arferion da, ac i hyrwyddo cynnydd a lles disgyblion. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn ofalus i sicrhau cyllid cytbwys a gwerth am arian. Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn dda ar gyfer sicrhau lles a chodi safonau'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2018